**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P-RE-0163-16

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Ionawr 2016

Annwyl Alun Ffred,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2015 ynghylch eich pryderon am gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyflwyno Rheoliad newydd ar gynhyrchu a labelu cynnyrch organig.

Rydw i'n ymwybodol o'r ddau fater wnaethoch gyfeirio atynt yn eich llythyr. Bydd llawer o fanylion y Rheoliad newydd yn cael eu llunio a'u negodi wrth i'r rheoliadau gweithredu gael eu cyflwyno. Byddaf yn sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn swyddfa Brwsel yn gweithio gyda chydweithwyr yn UKRep er mwyn tynnu sylw at fuddiannau Cymru ac unrhyw effaith a geir arnynt. Byddaf yn gofyn iddynt sicrhau bod y rheini'n cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r trafodaethau hynny.

Byddaf hefyd yn codi'r materion hyn fel y bo'n briodol, mewn trafodaethau gyda chyd-Weinidogion cyn cyfarfodydd Cyngor Gweinidogion yr UE.

Rydw i'n ddigon hapus i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor yn rheolaidd am hynt y gwaith.

Yn gywir,
Rebecca

**Rebecca Evans AC**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.